# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-03-06 (p2)

### Dyddiad: 6 Mehefin 2006
### Amser: Yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Y Rheolau Sefydlog: Trefn Bosibl A Goblygiadau O Ran Y Mesur

#### Diben

1. Mae'r papur hwn yn nodi trefn bosibl ar gyfer Rheolau Sefydlog y Cynulliad ar ôl 2007 ac yn darparu tabl sy'n nodi goblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru o ran y Rheolau Sefydlog.

#### Materion i'w Hystyried

Trefn Bosibl ar gyfer y Rheolau Sefydlog - Atodiad 1

2. Gan ddefnyddio'r Rheolau Sefydlog presennol fel sylfaen, mae Atodiad 1 i'r papur hwn yn nodi trefn bosibl ar gyfer Rheolau Sefydlog y Cynulliad ar ôl 2007, gan ystyried y goblygiadau o ran gweithdrefnau sy'n codi o gynnwys Mesur Llywodraeth Cymru. Nid dyma'r drefn derfynol, ond yn hytrach bydd yn sail ar gyfer trafodaeth bellach. Mae'n bosibl y bydd yn datblygu ac yn newid wrth i'r Pwyllgor wneud penderfyniadau ar Reolau Sefydlog unigol.

3. Mae'r Rheolau Sefydlog wedi eu grwpio mewn categorïau perthnasol. O dan y drefn gyffredinol, mae rhestr o'r Rheolau Sefydlog presennol nad ydynt yn angenrheidiol a/ neu y gellir eu cynnwys mewn Rheolau Sefydlog newydd neu ddiwygiedig. Er enghraifft, byddai modd cynnwys Rheolau Sefydlog 25-32 mewn Rheol Sefydlog 24 diwygiedig ar is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd rhai o'r Rheolau Sefydlog ar Bwyllgorau Sefydlog ar wahân yn cael eu cadw, ond bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau am strwythur y pwyllgorau yn y dyfodol.

4. Wrth ystyried y drefn bosibl, gallai'r Aelodau hefyd ystyried Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban.

Goblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru o ran y Rheolau Sefydlog - Atodiad 2

5. Mae Mesur Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymalau sy'n nodi:

- bod yn rhaid cynnwys rhai materion penodol yn y Rheolau Sefydlog
- y gellir cynnwys rhai materion penodol yn y Rheolau Sefydlog.

6. Hefyd, mae materion eraill sy'n codi o gymalau yn y Mesur y bydd angen eu hystyried wrth

baratoi'r Rheolau Sefydlog, o ran y materion gweithredol arferol.

7. Gan ddefnyddio'r drefn bosibl a nodwyd yn Atodiad 1, mae Atodiad 2 yn nodi'r holl oblygiadau o ran y gweithdrefnau sy'n deillio o'r Mesur. Mae pob gweithdrefn a nodwyd naill ai wedi'i chysylltu â Rheol Sefydlog sy'n bodoli eisoes, neu wedi'i nodi fel Rheol Sefydlog newydd posibl. Mae'r cymal perthnasol yn y mesur wedi'i nodi, ac mae'r papur hefyd yn nodi:

- bod yn rhaid cynnwys y weithdrefn yn y Rheolau Sefydlog oherwydd gofyniad penodol yn y Mesur
- y gellir cynnwys y weithdrefn yn y Rheolau Sefydlog oherwydd cyfeiriad penodol yn y Mesur
- ei fod yn debygol y bydd y weithdrefn yn cael ei chynnwys yn y Rheolau Sefydlog am resymau gweithredol
- ei fod yn bosibl y bydd y weithdrefn yn cael ei chynnwys yn y Rheolau Sefydlog, er enghraifft, oherwydd ei bod yn dilyn arferion seneddol mewn mannau eraill (ond nad yw o reidrwydd yn codi fel mater o fewn y Mesur).

8. Nid yw Atodiad 2 yn rhestr gyflawn o'r holl bethau y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried. Mae'n ymdrin â'r materion sy'n codi o'r Mesur yn unig. Mae'n debygol y bydd materion gweithdrefnol eraill yn codi yn sgil gwaith y Pwyllgor, a bydd angen ystyried y rhain.

9. Hefyd, os nodwyd bod modd cynnwys gweithdrefn sy'n codi o'r mesur mewn Rheol Sefydlog sy'n bodoli eisoes, mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r Rheol Sefydlog bresennol, naill ai er mwyn adlewyrchu gofynion y Mesur, neu er mwyn gwneud y newidiadau priodol os oes teimlad bod angen gwella'r arferion presennol.

## Argymhelliad

10. Gwahoddir y Pwyllgor :

- i wneud sylwadau ar y drefn a argymhellir yn Atodiad 1
- i nodi Atodiad 2 a'r effaith a gaiff ar ei raglen waith.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Mehefin 2006